# PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY

**(Committee Rooms A/B - Neath Civic Centre)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 6 Medi 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.L.Taylor** |
| **Cynghorwyr**: | S.Bamsey, J.Evans, N.T.Hunt, H.N.James, S.M.Penry, S.Pursey a/ac S.Rahaman |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | N.Pearce, C.Morris, D. Phillips, C.Davies a/ac N.Headon |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Councillor L.Jones and R.G.Jones |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDD

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:-

Y Cynghorydd S Rahaman - Adroddiad ar y cyd gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a Phennaeth Eiddo ac Adfywio - gan ei fod yn gweithio yn y fasnach bwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.

3. **DEWIS EITEMAU PRIODOL O AGENDA CYN CRAFFU BWRDD Y CABINET (ADRODDIADAU BWRDD Y CABINET YN AMGAEËDIG AR GYFER YR AELODAU CRAFFU)**

Craffodd y pwyllgor ar eitemau canlynol Bwrdd y Cabinet:

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2019/2020 - Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 - 30 Mehefin 2019)

Derbyniodd yr aelodau drosolwg o'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y chwarter 1af, fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nodwyd bod y ffigurau cyffredinol ar gyfer bioamrywiaeth yn dda, er roedd y rhain yn anodd eu mesur gan fod bioamrywiaeth yn faes eang sy'n newid drwy'r amser.

Esboniodd y swyddogion y byddai rhagor o brosiectau bioamrywiaeth, ond roeddent yn ddibynnol ar arian gan Lywodraeth Cymru. Amlygwyd y ffaith y derbyniwyd arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri er mwyn gwneud gwaith i adfywio'r mawn yng Ngwm Afan, ond byddai rhagor o arian yn ein helpu i ddarparu prosiectau ychwanegol i'r gymuned ehangach.

Nodwyd y byddai adroddiad drafft ar Fioamrywiaeth yn cael ei gyflwyno i Bwrdd y Cabinet ym mis Hydref 2019.

Cafwyd trafodaeth am berfformiad busnesau risg uchel a oedd yn atebol am archwiliadau gan Safonau Masnach, ac amlygwyd y ffaith bod salwch yn y tîm wedi effeithio ar y rhaglen. Esboniwyd bod trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau bod yr holl fusnesau risg uchel yn cael eu harchwilio erbyn y trydydd chwarter.

Yn dilyn proses graffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 - ystyried yr Ymgynghoriad Drafft ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, a rhoi gweithdrefnau'r cyhoeddiad/ymgynghoriad ar waith

Derbyniodd y pwyllgor wybodaeth ynghylch yr Ymgynghoriad Drafft ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, a'r gweithdrefnau ymgynghori i'w rhoi ar waith.

Cafwyd trafodaeth am y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru), ac esboniwyd bod cysylltiadau â Theithio Llesol yn yr ymgynghoriad drafft a ddosbarthwyd.

Mewn perthynas â Hawliau Tramwy Cyhoeddus i lwybrau beicio a llwybrau ceffyl, nodwyd bod gofyniad i ddangos tystiolaeth o ddefnydd o’r rhain gan fod fframwaith cyfreithiol i'w ddilyn.

Roedd yr aelodau'n falch bod rhannau o lwybrau halio'r camlesi yng Nghastell-nedd wedi cael eu gwella'n ddiweddar, a'u bod bellach ar agor i feicwyr.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach: Cynllun Cyflawni'r Gwasanaeth Bwyd a Phorthiant 2019-2020 ac Adolygiad Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Phorthiant 2018-2019

Derbyniodd y pwyllgor wybodaeth am gynllun gwaith Gwasanaeth Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Phorthiant yr awdurdod lleol ar gyfer 2019-2020, ac adolygiad o Wasanaeth Gorfodi'r Ddeddf Bwyd a Phorthiant ar gyfer 2018-2019, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Esboniwyd bod targedau presennol yn cael eu cyflawni, er y byddai uchafbwyntiau ac isafbwyntiau oherwydd y galw.

Os bydd perchnogion busnes yn anhapus â sgôr yr arolygiad cyntaf o'u mangreoedd bwyd, esboniodd y swyddogion fod ganddynt hawl i wneud cais am ymweliad ailsgorio. Roedd yr ymweliad cyntaf am ddim ac yn ddirybudd, a byddai angen codi tâl am unrhyw ymweliad ailsgorio. Byddai swyddogion yn ailymweld â'r eiddo ymhen 3 mis, ac fe'i nodwyd bod hyn yn gweithio'n dda, er roedd rhai gweithredwyr bwyd yn gofyn iddynt ailymweld yn gynt, ac nid oedd hyn bob amser yn bosib.

Yn dilyn proses graffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

## 4. **EITEMAU BRYS**

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, codwyd yr eitem ganlynol fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rhesymau dros y brys:

Oherwydd yr elfen amser.

5. **MYNEDIAD AT GYFARFODYDD I BENDERFYNU A DDYLID GWAHARDD Y CYHOEDD O'R EITEM GANLYNOL YN UNOL AG IS-ADRAN 100A(4) A (5) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 A'R PARAGRAFFAU EITHRIEDIG PERTHNASOL O RAN 4 ATODLEN 12A Y DDEDDF UCHOD.**

**PENDERFYNWYD:** yn unol ag Adran 100A(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwaherddir y cyhoedd o'r eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o'r Ddeddf uchod.

6. **DEWIS EITEMAU PREIFAT PRIODOL O AGENDA CYN CRAFFU BWRDD Y CABINET (ADRODDIADAU BWRDD Y CABINET YN AMGAEËDIG AR GYFER YR AELODAU CRAFFU).**

Cafodd y Pwyllgor drosolwg o'r eitemau preifat canlynol a oedd yn eitemau brys gan Fwrdd y Cabinet:-

Cam 2 Ffordd Ddosbarthu Ymylol Port Talbot - Estyn y cyfnod statudol ar gyfer y cais am iawndal gan Associated British Ports Holdings Ltd.

Roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**